

- Ffordd Cymru
- Lawr i'r Môr
- Mynydd a Rhostir
- Geolwybr Cribarth
- Geoparciau ar Instagram!
- Geoparciau yr Iwerydd!
- Llysgenhadon y Geoparciau
- Gwlad y Sgydau
- Cod Cŵn
- Gwarchodfa Awyr Dywyll
- Sioeau'r Haf
- Dyddiadau Pwysig

'BANNAU BRYCHEINIOG' CYRCHFAN ORAU CYMRU

Roedd Bannau Brycheiniog yn falch iawn o dderbyn yr anrhydedd o fod yn Gyrchfan Orau Cymru yn seremoni Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru 2018 a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Celtic Manor yn gynharach eleni.

Mae Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru, a drefnir gan Croeso Cymru, yn dathlu goreuon twristiaeth y wlad gan dynnu sylw at lwyddiannau busnesau a diwydiant twristiaeth y wlad.

Cyflwynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Thwristiaeth Bannau Brycheiniog, y cais am y wobwr, 'Bannau Brycheiniog' yn y categori 'Cyrchfan Orau,' ar ran Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy y Parc. Roeddent yn fuddugol yn rhanbarth Canolbarth Cymru. Yna aethant ymlaen i drechu ymgeiswyr cryf iawn eraill yn seremoni'r Gwobrau Cenedlaethol, o Ddyffryn Gwy a Choedwig Dean (De ddwyrain Cymru), Zip World (Gogledd Cymru) a Chroeso Bae Abergwaun (De-

orllewin Cymru) gan dderbyn y teitl anrhydeddus yma.

Dywedodd Croeso Cymru fod safon yr ymgeiswyr dros Gymru gyfan eleni yn eithriadol o uchel ac roedd cyfanswm o saith o enillwyr rhanbarthol ar draws y gwahanol gategorïau yn dod o Fannau Brycheiniog. Mae hyn yn tanlinellu safon uchel yr hyn y mae'r diwydiant twristiaeth yn ei gynnig yn yr ardal hon ac yn atgyfnerthu'r wobwr o fod yn 'Gyrchfan Orau'.

Mae'r wobwr yn cydnabod holl waith caled, ymroddiad a'r agwedd benderfynol a ddangoswyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Twristiaeth Bannau Brycheiniog, yr Awdurdodau Lleol a'r holl fusnesau amrywiol o fewn y rhanbarth. Mae gan y busnesau le i ymfalchïo yn y llwyddiant hwn a dylent ei ddefnyddio er mwyn marchnata eu busnesau a'r Gyrchfan gyda'i gilydd.



FFORDD CYMRU

Ydych chi wedi clywed fod y rhan o'r A470 sy'n croesi drwy'r Parc Cenedlaethol yn cael ei hystyried i fod yn un o rannau pwysicaf ymgyrch newydd Croeso Cymru, sef Ffordd Cymru?

Y syniad yw bod yna daith drwy Gymru, yn cychwyn yng Nghaerdydd i fyny'r A470, ar draws Gogledd Cymru ac yna i lawr arfordir Bae Ceredigion. Yn y parc yma y bydd ymwelwyr yn dechrau gweld ardal wledig agored ac rydym wedi derbyn grant sylweddol gan Croeso Cymru i wella'r hyn a elwir yn 'brofiad teithiol yr ymwelwyr', yn llythrennol a symbolaidd.

Y bwriad ydy creu cyfres o 'Bwyntiau Croeso' ar hyd y ffordd lle gall ymwelwyr aros am seibiant o rai munudau neu oriau yn ystod eu taith. Gallant hefyd ddysgu mwy am lefydd sydd efallai'n fwy diarffordd lle y gallent ymweld â hwy. Byddai rhai o'r 'Pwyntiau' yma mewn mannau ar ochr y ffordd gyda gwybodaeth gryno'n unig ac arwyddbost yn cyfeirio at leoliadau. Bydd Pwyntiau eraill yn fwy, gyda lle i bobl gael awyr iach a mwynhau'r ardal ond heb fynd â hwy yn rhy bell o'u siwrne. Yn olaf, fe fydd cryn fuddsoddiad yn isadeiledd mannau fel Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol a Chomin Llangors. Mae ymchwil yn cael ei wneud hefyd i'r posibilrwydd o greu mynedfa benodol wrth ddod i mewn i'r Parc ar y rhan i'r gogledd o Ferthyr.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei weithredu'n ystod y 18 mis nesaf ac yn cael ei gyflawni drwy gydweithrediad a phartneriaeth agos gydag Adran Prifffyrdd Llc, Cyngor Powys, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chynghrair Cefn Gwlad Llangors a Bwlch.

Cysylltwch â Richard Tyler os am fwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



AWR I'R MÔR

I ddathlu thema Croeso Cymru am 2018, sef 'Blwyddyn y Môr', gyda chefnogaeth ariannol gan Croeso Cymru rydym wedi cynhyrchu pedair taith gerdded ar gyfer y teulu, pedair ffilm animeiddiad a llyfr stori sy'n eich arwain ar daith ar hyd y gamlas.

Ond taith wahanol ydi hon- mae'n cychwyn gyda theulu'n mwynhau gwyliau ar gwch camlas ond yna mae'n gwibio'n ôl i 1825 pan oedd y gamlas yn brysur iawn gyda chychod yn cludo glo, calch, haearn a mwy i lawr at y môr ac allan i'r byd mawr.

Pwrpas adeiladu'r gamlas yn y lle cyntaf oedd er mwyn gallu cludo'r nwyddau hyn ar y tramffyrdd hyd at y gamlas.

Cymerwch gipolwg ar yr animeiddiadau, y llyfr stori a'r daith gerdded ar:

www.breconbeacons.org/downtothesea

Mae croeso i chi ychwanegu'r linc yma at eich gwefan chi neu os hoffech i'r linc gael ei hanfon atoch yn uniongyrchol, cysylltwch â Carol Williams --

carol.williams@beacons-npa.gov.uk



LLYSGENHADON MYNYDD A GWEUNDIR

Fe gwblhaodd un deg saith o Llysgenhaddon Mynydd a Gweundir eu cwrs deuddydd a hanner ym mis Mehefin.

Roedd y cwrs yn canolbwyntio ar roi gwybodaeth am y materion sy'n wynebu'r ucheldir o fewn y Parc Cenedlaethol gan edrych yn benodol ar ardal y Mynyddoedd Du.

Mae hyn yn rhan o Bartneriaeth Defnyddio Tir y Mynyddoedd Du, rhaglen allanol gyhoeddus gafodd ei hariannu dan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Ymysg y themâu o fewn y cwrs roedd rheoli rhedyn ac adfer tir mawr, rheoli ymheliwyr a materion sy'n effeithio ar gymunedau ffermio yr ucheldir.

Cafodd yr 17 llysgennad y profiad o ymweld â Mynydd Crug Hywel ger Crughywel a chael sgwrs gynhwysfawr gan ffermwr defaid lleol.

Dywedodd Julian Atkins, Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: "Mae'r hyfforddiant Mynydd a Gweundir yn helpu'r rhai sy'n mynychu i gael gwybodaeth fanwl o'r ardal sydd wedyn yn cael ei rhannu efo'r ymwelwyr. Rydym yn gobeithio y bydd y cwrs yn gwella'r wybodaeth o fewn y diwydiant twristiaeth am anghenion rheolwyr y tir a materion sy'n gysylltiedig â rheoli'r pwysau a roir gan ymwelwyr."

Roedd yr adlborth gan y llysgenhaddon yn rhagorol, dyma roi o'r pethau a ddywedwyd ganddynt am y cwrs:

Fe wnes i fwynhau'n arbennig gyfraniad yr arbenigwyr i'r cwrs a'r ffordd yr oedd eu sgwrsiau'n plethu drwy'i gilydd i egluro'r dirwedd a'r ffordd y gallwn ni gyfleu'r materion a'r pleser o dreulio amser yn y Bannau.

Diolch yn fawr iawn i bawb am y cyrsiau yma. Pan wnaethom ni benderfynu mynd yn hunangyflogedig fuasem ni heb ystyried hyn o gwbl. Ond yn awr, ni allaf feddwl am fywyd ym Mrycheiniog heb y llysgenhaddon.

Mae'r cwrs Mynydd a Gweundir nesaf yn Hydref 2018 yn **LLAWN**, ond mae yna lefydd i'w cael ar gwrs nesaf y gwanwyn, 2019.

Dydd Mercher 8 Mai

Dydd Mercher 22 Mai

Dydd Mercher 5 Mehefin (hanner diwrnod)

I archebu lle, cysylltwch â **Carol Williams 01874 620478**
carol.williams@beacons-npa.gov.uk

Mae'n ofynnol i chi fod wedi cwblhau'r cwrs Llysgenhaddon craidd tridiau er mwyn cymryd rhan yn y cwrs Mynydd a Gweundir.



NEWYDD! GEOLWYBR CRIBARTH

Eisiau taith gerdded newydd i'w rhannu efo'ch ymwelwyr? Beth am hon? Geolwybr Cribarth – sy'n dechrau ym Mharc Gwledig Craig-y-nos. Mae'r daith gylchol ychydig dros 3 milltir o hyd ac mae'n archwilio llethrau creigiog y bryn anhygoel sydd uwchben Craig-y-nos. Gan ei fod o fewn Geoparc Fforest Fawr sy'n ymestyn dros hanner gorllewinol y Parc Cenedlaethol, rydych yn sicr o weld tirlun dramatig. Yn yr achos yma mae olion o orffennol diwydiannol yr ardal – creigiau carreg galch a hen dramffyrdd. Mae copïau o daflen y daith ddacaregol ar gael am ddim i fusnesau twristiaeth a gellir eu casglu o Barc Gwledig Craig-y-nos, Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol neu drwy gysylltu ag Alan.Bowring@beacons-npa.gov.uk.
Llun: Taflen Geolwybr Cribarth Geotrail



DILYNWCH Y GEOPARC AR

INSTAGRAM!

Mae gan Geoparc Byd-eang UNESCO Fforest Fawr ei dudalen Instagram ei hun erbyn hyn. Dilynwch @fforestfawrgeopark a rhannwch eich lluniau o orllewin y parc drwy dagio [#fforestfawrgeopark](https://www.instagram.com/fforestfawrgeopark).
Llun @fforestfawrgeopark




GEOPARCIAU YR IWERYDD NEWYDDION DIWEDDARAF

Mae'r Prosiect Interreg Geoparciau yr Iwerydd yn datblygu'n dda ac mae'r broses o hyrwyddo'r llwybr anhygoel newydd o geoparciau, y 'Llwybr Geodwristiaeth Iwerydd Ewropeaidd' wedi dechrau. Mae Fforest Fawr yn un o'r lleoliadau gwyhych sy'n cael ei farchnata drwy Ardal yr Iwerydd Ewropeaidd ynghyd â'r 11 geoparc arall sy'n rhan o'r cynllun. Mae sawl sianel ddigidol wedi cael eu creu gan gynnwys tudalen Facebook; @AtlanticGeotourismRoute, gwefan www.geotourismroute.eu/ a deunyddiau wedi eu hargraffu. (gweler llun) Yn ystod yr haf bydd fideo o'r llwybr yn cael ei greu a bydd yn gyfle i bob lleoliad ddangos eu prif atyniadau i ddenu ymwelwyr.

Yn ystod y gwylicau hanner tymor fis Mai, gyda chyllid o'r prosiect, trefnwyd Diwrnod o Weithgareddau Geofest i'r Teulu yng Nghraig-y-Nos. Daeth tua 400 o bobl i'r digwyddiad poblogaidd - mae pobl o bob oed yn cael eu hannog i ddarganfod mwy am Geoparc Byd-eang UNESCO Fforest Fach. Yn ystod y dydd fe gafodd teuluoedd gyfle i ddysgu mwy am greigiau, hanes, bywyd gwylt a chymunedau'r Geoparc a hefyd i fanteisio ar rai o'r gweithgareddau eraill sydd ar gael yn y Geoparc, megis canwio a chyfeiriannu. Bydd cyllid y prosiect hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r cwrs hyfforddiant Llysgenhadon nesaf fydd yn digwydd yn yr hydref.

Llun: Taflen newydd ei chyhoeddi am Lwybr Geodwristiaeth yr Iwerydd Ewropeaidd.

Ariennir y prosiect yma ar y cyd rhwng Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd drwy'r Rhaglen Ardal Interreg Ewropeaidd



LLYSGENHADON GEOPARC

Cwrs hyfforddi dau ddiwrnod ar gyfer Llysgenhadon Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

23 Hydref a 27 Tachwedd 2018.

Tybed oeddech chi'n gwybod fod hanner gorllewinol y Parc hefyd yn Geoparc? Mae'r cwrs dau ddiwrnod hwn yn berffaith ar gyfer y busnesau Twristiaeth sydd yn awyddus i ddod i adnabod Geoparc Byd-eang UNESCO Fforest Fawr yn well. Mae'r diwrnod cyntaf yn cychwyn ym Mharc Gwledig Craig-y-nos gydag ymweliad i Chwareli Penwyllt a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ogof Ffynnon Ddu ac yna mae'r ail ddiwrnod ym Mhontneddfechan gyda thaith gerdded i Graig y Ddinas a Bwa Maen.

GWLAD Y SGYDAU

NEWYDDION

DIWEDDARAF

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth efo'r tri Awdurdod Lleol, y Cyngor Cymuned a Cyfoeth Naturiol Cymru (ymysg eraill) i geisio ymateb i'r materion sy'n codi o ganlyniad i niferoedd

uchel o ymwelwyr, fel y nodwyd yn ein Cylchlythyr diwethaf.

Rydym yn tynnu tuag at ddiwedd y cam cyntaf o'r gwaith, yn derbyn sylwadau'r ymgynghorydd a barn pobl leol a'r rhai sy'n eu cynrychioli.

Tra bod datblygiadau da'n digwydd yn y cefndir i geisio cael atebion cynaliadwy a pharhaol, rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i arbrofi a

thrio atebion cyflym i leihau'r pwysau a gwella'r profiad i'r ymwelwyr ac i'r gymuned leol.

I ymwelwyr sydd am ymweld â'r ardal, rydym yn cynnig y camau syml canlynol er mwyn iddynt gael y gorau o'r ymweliad:

- **Osgoi'r adegau prysuraf megis penwythnosau a gwyliau banc braf - cynlluniwch eich taith ar gyfer dechrau'r wythnos.**
- **Parciwch yn ystyriol a dilynwch yr arwyddion at y meysydd parcio penodol - cofiwch feddwl am y bobl leol sy'n byw ac yn gweithio yma.**
- **Daliwch sylw o'ch man cychwyn a chadwch at y llwybrau fel nad ydych yn mynd ar goll.**
- **Gwisgwch esgidiau addas a byddwch yn barod i gerdded ar hyd llwybrau coedwig ac i lawr ceunentydd serth. Mae'r mwyafrif o'r rhaeadrau gryn bellter o'r meysydd parcio a'r cyfleusterau.**

Cewch fwy o wybodaeth yn:

www.breconbeacons.org/waterfalls

COD CŴN



Oes gan eich busnes agwedd dda tuag at gŵn? - Ydych chi eisiau annog ymddygiad cadarn? - Oes gennych chi syniadau, awgrymiadau neu sylwadau?

Os oes, daliwch ati i ddarllen...

Efallai eich bod yn ymwybodol ein bod wedi gweithio ar fersiwn newydd o God Cŵn y Parc Cenedlaethol ac rydym yn falch o gyhoeddi y gallwch ei weld yn awr ar ein Gwefan:

www.breconbeacons.org/dogs

Rydym yn eich annog i ddefnyddio'r cod, rhannu'r linc ar eich gwefan a chynghori eich cwsmeriaid am y ffyrdd gorau o edrych ar ôl y cŵn tra'n mwynhau'r awyr agored

Rydym yn awyddus i roi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt er mwyn gwneud yn fawr o'u hymweliad ac yr un pryd yn helpu i ofalu am ein bywyd gwyllt a'r economi gwledig, y cwbl yn sicrhau bod Bannau Brycheiniog yn parhau i fod yn le arbennig i fyw, i weithio ac i ymweld ag ef.

Lluniwyd y cod dros gyfnod o amser gyda'r bwriad o fod yn glir, yn gyfeillgar ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol.

Ein nod ydi addasu'r cod yn ystod y misoedd nesaf, gan wrando ar farn a safbwyntiau'r cyhoedd a'n sefydliadau partner cyn lansio'r cod yn fwy ffurfiol y gwanwyn nesaf - mewn pryd ar gyfer y tymor wyna!

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y cynlluniau tuag at y dyfodol, helpu i gefnogi ymddygiad cadarnhaol neu gyfrannu at y drafodaeth, yna cysylltwch â James Lawrence ar:

James.Lawrence@beacons-npa.gov.uk



GWARCHODFA AWYR DYWYLL

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel Gwarchodfa Awyr Dywyll. Gan fod cyn lleied o oleuadau artiffisial yma, mae'n le delfrydol i syllu ar y sêr. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn trefnu nifer o ddigwyddiadau syllu ar y sêr yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, mewn partneriaeth gydag Awyr Dywyll Cymru a Chymdeithas Seryddiaeth Caerdydd. Mae tocynnau ar werth ar gyfer y digwyddiadau hyn yn awr, ac mae'r manylion ar ein gwefan:

www.breconbeacons.org/events

Dyma ddigwyddiadau eleni;

Cawod Meteor Perseid – 10 Awst 2018

Amser dechrau -7.00pm £15 y tocyn

Noson o Syllu ar y Sêr – 26 Hydref 2018

Amser dechrau – 7.00pm £15 y tocyn

Cawod Meteor Geminids – 7 Rhagfyr

2018, Amser dechrau -7.00pm £15 y tocyn

Mae galw mawr am y tocynnau yma felly archebwch eich lle mor fuan ag sy'n bosib.

SIOEAU HAF

Mae yna sioeau haf bendigedig wedi eu trefnu ym Mannau Brycheiniog yr Haf yma. Os nad ydych wedi cyrraedd un eto, rhowch un ar eich rhestr o bethau i'w gwneud. Dyma restr o'r sioeau ar eich cyfer chi a'ch gwsteion yn ystod mis Awst a Medi eleni.

AWST

4 Sioe Sirol Brycheiniog www.breconcountyshow.co.uk

4 Sioe Llangadog www.Llangadogyfcshow.com

4 Sioe Llanthony www.llanthonyshow.co.uk

11 Sioe Faenor www.vaynorshow.co.uk

11 Sioe Llanigon www.Llanigonyfcshow.com

18 Sioe Llandeilo www.visitllandeilo.co.uk

25 Sioe Talybont ar Wysg www.talybontshow.org

26 Sioe Llangynidr www.llangynidrshow.org

25 – 27 Gŵyl y Mynyddoedd Du Talgarth

MEDI

1 Sioe Pontsenni www.sennybridgeshow.com

8 Sioe Gwy www.uskshow.co.uk

15 Sioe Trecastell

22 & 23 Sioe Ddefaid Llanymddyfri

www.llandoverysheepfestival.co.uk



DYDDIADAU I'CH DYDDIADUR

HYFFORDDIANT CRAIDD I'R

LLYSGENHADON:

→ Dydd Mawrth 12 Medi 2018

'Ymdeimlad o Le', Canolfan Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Libanus.

→ Dydd Mawrth 2 Hydref 2018

'Eich Calon yn y Parc', Canolfan Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Libanus.

→ Dydd Mawrth 16 Hydref 2018

'Adnabod ein Gilydd' (Knowing me, knowing you), Canolfan Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Libanus.

Archebwch eich lle drwy ddefnyddio Eventbrite
www.eventbrite.co.uk/e/brecon-beacons-national-park-ambassadors-course-tickets-47172744950

CWRS HYFFORDDI LLYSGENHADON MYNYDD A GWEUNDIR PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Mynychodd 17 o Lysgenhadon y cwrw Mynydd a Gweundir newydd yn ystod Mehefin gan basio'n llwyddiannus.

Meddai un llysgennad, "Fe wnes i fwynhau'n arbennig gyfraniad yr arbenigwyr i'r cwrw a'r ffordd yr oedd eu sgysiau'n plethu drwy'i gilydd i egluro'r dirwedd a'r ffordd y gallwn ni gyfleu'r materion a'r pleser o dreulio amser yn y Bannau."

Mae cwrw yr hydref yn llawn erbyn hyn ond fe fydd cwrw yng ngwanwyn 2019. Dyma'r dyddiadau:

8 Mai, 22 Mai, 5 Mehefin

→ DIWRNOD 1

Cyflwyniad i waith Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Du.

→ Sesiwn 1

Cyfweliad gyda Mynydd. Cwis i ddilyn

→ Sesiwn 2

Daeareg y Mynyddoedd Du - Alan Bowring (APCBB)

→ Sesiwn 3

Archeoleg a Hanes - Amelia Pannett (Cadw)

→ Sesiwn 4 - Ymweliad safle dewisol i Fynydd Crug Hywel ger Llanbedr -rheolaeth yr ucheldir a diraddiad cynefinoedd - Clive Williams and Richard Ball (APCBB)

Crynhai diwrnod un (Steve & Gareth)

→ DIWRNOD 2

→ Sesiwn 1

Deall 'cyfalaf naturiol' a 'gwasanaethau ecosystem' (Steve) - yna'r gêm, 'Y Cyfalafwyr Naturiol' (Gareth)

→ Sesiwn 2

Asesiad Lles - Luke Maggs (Cyfoeth Naturiol Cymru)

→ Sesiwn 3

Trafferth efo rhedyn! Cyflwyniad (Steve)

→ Sesiwn 4

Y sielens efo ymwelwyr - y drwg a'r da! (Gareth)

→ Sesiwn 5

Cyflwyniad i ffermio mynydd a thir comin
Cyflwyniad (Steve)

→ 1.15 pm - Ymweliad safle

Ffermio'r ucheldir ar waith 'Blwyddyn ym mywyd...' (Jeff Gwillim, ffermwr mynydd a Clive Williams APCBB)

Crynhai diwrnod 2 (Steve & Gareth)

→ DIWRNOD 3

Croesawu & chyflwyno (Ymgynghorwyr a chyfranwyr)

→ Crynhai'r prif faterion i'w trafod (Ymgynghorwr - Steve)

→ Gwaith grŵp - 'Beth fydd y llysgenhadon yn ei wneud nesaf?' (parwb)

→ Hwyluso trafodaeth a chynllun gweithredu (Pawb)

→ Crynhai (Ymgynghorwyr)

→ Cinio & rhwydweithio



CYSYLLTIADAU

Richard Tyler

Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu
Powys, LD3 7HP.
01874 620405
richard.tyler@beacons-npa.gov.uk

Carol Williams

Swyddog Ardal Twf Twristiaeth

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu
Powys, LD3 7HP.
01874 620478
carol.williams@beacons-npa.gov.uk

Alan Bowing

Swyddog Geoparc y Fforest Fawr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu
Powys, LD3 7HP.
01874 620415
alan.bowing@beacons-npa.gov.uk

James Lawrence

Swyddog Rheolaeth Ymwelwyr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu
Powys, LD3 7HP.
07854 997558
james.lawrence@beacons-npa.gov.uk

Laura Thomas

Cyfarwyddwr Gweithredol, Twristiaeth Bannau Brycheiniog

01874 202202
laura@breconbeaconstourism.co.uk